# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 18 MEDI 2025

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd) a Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Elwyn Edwards, Arwyn Herald Roberts, Beca Brown, Linda Morgan, Beca Roberts, Berwyn Parry Jones, Edgar Wyn Owen, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas, Elfed Powell Roberts a Stephen Churchman

**Swyddogion yn bresennol:**
Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Hywel a Gruffydd Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2025, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd a Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd.

Adroddwyd bod y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur bellach wedi cwblhau ei drydedd flwyddyn weithredol. Cyflwynwyd ystadegau ar faint o garbon sydd yn cael ei amsugno gan diroedd y Cyngor yn ogystal â'r allyriadau carbon gan egluro bod 18,132,729 kgC0ze o fwlch er mwyn cyrraedd sefyllfa o sero net carbon. Ymhelaethwyd ar allyriadau carbon gan gynnwys caffael yn ystod y flwyddyn 2024/25 gan egluro bod y gwybodaeth caffael yn seiliedig ar wariant ariannol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, yn hytrach na wir effaith y datblygiadau. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth ar allyriadau carbon yn seiliedig ar wariant ariannol i'r dyfodol

oherwydd bod hyn yn arwain at gamargraff o'r gwir sefyllfa wrth i gostau nwyddau gynyddu'n barhaus. Darparwyd diweddariad o lefelau allyriadau carbon heb gynnwys gwariant ariannol caffael hefyd, gan fod hynny yn rhoi darlun mwy eglur a chywir o wir sefyllfa'r Cyngor.

Cadarnhawyd bod pob Awdurdod Lleol a chorff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r un fformiwla ar gyfer mesur eu hallyriadau carbon. Eglurwyd bod y system hon wedi bod yn weithredol ers 2019 ac mae'r flwyddyn honno yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Mynegwyd balchder bod allyriadau carbon y Cyngor wedi lleihau 32% ers 2019. Cydnabuwyd bod cynnydd o 4% i'w weld yn ystadegau ar gyfer y flwyddyn 2023/24 gan egluro bod y cynnydd hwn yn deillio o'r angen i ddefnyddio mwy o nwy ar gyfer gwresogi adeiladau'r Cyngor yn sgil tywydd oer.

Nodwyd bod gwaith wedi bod yn cael ei wneud ar nifer o adeiladau'r Cyngor, ar gyfer insiwleiddio a sicrhau eu bod yn cyfrannu llai at lefelau allyriadau carbon. Cadarnhawyd nad oes blwyddyn lawn o ddata ar gael ar hyn o bryd er mwyn gallu dadansoddi'r data o'r gwaith hwnnw, ond y bydd yn debygol o gael ei gynnwys yn yr adroddiadau i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Mewn ymateb i ymholiadau am wybodaeth bellach ar sut mae'r Cyngor yn annog mwy o fioamrywiaeth o fewn adran Defnydd Tir o'r Cynllun Argyfwng, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod cynllun blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd yn cyfrannu i'r nod hwn. Ymhelaethwyd bod y cynllun i blannu mwy o flodau gwyllt wedi dod yn weithredol yn ystod ymgyrch yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan yn 2023 gan gadarnhau bod cynlluniau gan y Cyngor i'w ymestyn i ardal Meirionnydd yn y dyfodol. Sicrhawyd bod yr hadau ar gyfer blodau gwyllt yn cael eu plannu yn ystod tymor yr hydref gan hefyd bwysleisio nad oes chwynladdwyr gyda chemegau niweidiol yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhawyd bod gwaith dadansoddol ar waith er mwyn mesur faint o garbon mae'r prosiect hwn yn ei amsugno a data ar faint mae'n ei gyfrannu at lefelau bioamrywiaeth. Mewn ymateb i'r sylwadau, awgrymwyd i'r Cyngor edrych i mewn i gynnal peilot ar chwynladdwr Foamstream, fel awdurdodau eraill, gan ei fod yn chwynladdwr di-gemegion ac yn effeithiol.

Mewn ymateb i ymholiad os yw'n debygol bydd y Cyngor yn llwyddo i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o fod mewn sefyllfa sero net carbon erbyn 2030, cydnabuodd y Rheolwr Rhaglen y bod hwn yn darged heriol iawn i'w gyfarch. Pwysleisiwyd os yw data allyriadau carbon caffael yn parhau i gael ei gynnwys fel rhan o holl allyriadau carbon y Cyngor, ni fydd modd i'r Cyngor gyrraedd y targed. Fodd bynnag, tynnwyd sylw bod nifer o ffactorau eraill yn effeithio ar allu'r Cyngor i wireddu'r targed hwn megis technoleg, costau o brynu nwyddau ac adnoddau, yr angen am adnodd ariannol sylweddol a'r ffaith bod nifer o agweddau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod. Rhannwyd enghraifft o sefyllfa ble mae'r Cyngor wedi gweithio i leihau allyriadau carbon drwy addasu goleuadau stryd i fod yn olau LED. Fodd bynnag, nodwyd bod y Cyngor yn nodi lefelau o allyriadau carbon o'r goleuadau stryd hynny gan fod y trydan a ddefnyddir o'r grid cenedlaethol ddim yn deillio o ynni adnewyddadwy, sydd yn agwedd sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod Cyngor Gwynedd yn arwain ar y maes hwn ond bod y targed yn parhau i fod yn heriol. Nodwyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda siroedd eraill er mwyn rhannu syniadau ac arfer dda. Awgrymodd aelod ei fod yn amserol i osod targed mwy realistig.

Gofynnwyd a allai'r Cyngor osod targed amgen ar gyfer cyrraedd sero net carbon yn hytrach na glynu at yr hyn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod y targed o garbon net sero wedi cael ei osod ar gyfer y sector gyhoeddus yn ei gyfanrwydd a byddai angen trafodaeth genedlaethol er mwyn gallu mynd i'r afael a'i addasu

Ystyriwyd prosiect 3 o fewn Adran Symud a Thrafnidiaeth y Cynllun, gan holi os oedd y ddarpariaeth pwyntiau gwefru yn ddigonol ar gyfer anghenion y fflyd. Mewn ymateb i'r ymholiadau, nododd y Rheolwr Rhaglen bod y gwaith o sefydlu pwyntiau gwefru yn cael ei wneud law yn llaw gyda datblygiad y fflyd. Cadarnhawyd bod y datblygiadau cyfochrog hyn yn derbyn adolygiadau parhaus i gyfarch anghenion y Cyngor. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod cryn dipyn o heriau yn wynebu'r Cyngor wrth osod pwyntiau gwefru ar gyfer y fflyd a'r cyhoedd gan nad oes gan y Cyngor awdurdod i ofyn i ddarparwyr trydan i'w pweru. Nodwyd bod hyn yn her ers rhai blynyddoedd ac nid oes datrysiad amlwg iddo ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i sylw mai dim ond 43% o gerbydau'r fflyd sydd wedi cael eu diweddaru i fod yn gerbydau trydan, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod hyn yn deillio o'r ffaith nad oes cerbydau trydan addas ar gael ar gyfer peiriannau trwm. Cydnabuwyd nad oes modd i'r Cyngor gynyddu'r ganran yn sylweddol nes bod y dechnoleg ar gyfer peiriannau trwm wedi cael ei ddatblygu ac ar gael mewn modd  sydd yn gwneud synnwyr ariannol i'r Cyngor. Fodd bynnag, sicrhawyd bod faniau a cheir y fflyd yn cael eu diweddaru i fod yn gerbydau trydan pan mae'r cerbydau presennol yn dod i ddiwedd eu hoes a bod gwahaniaeth i weld yn lefelau allyriadau carbon y fflyd o'r newidiadau hyn sydd eisoes wedi cael eu cyflawni. Mewn ymateb i ymholiad os oedd hydrogen yn opsiwn sydd yn cael ei ystyried i bweru cerbydau trwm, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod Uchelgais Gogledd Cymru yn datblygu prosiect hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy ar hyn o bryd a bod y Cyngor yn awyddus i fonitro'r prosiect er mwyn ystyried hydrogen fel dull o bweru cerbydau trwm i'r dyfodol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y byddai'n fuddiol i edrych ar wahanol brosiectau sydd yn ymwneud â hydrogen ar lefel cenedlaethol er mwyn ystyried os fyddai  hydrogen yn opsiwn i'w ddefnyddio yng Ngwynedd yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet beth oedd ei gynlluniau i'r Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur i'r dyfodol a pha ystyriaethau am drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar waith er mwyn lleihau allyriadau carbon. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei fod o'r farn bod y Cyngor yn perfformio'n dda wrth ymateb i newid hinsawdd. Fodd bynnag, nododd y gobeithiai weld newid yng ngwaith y bwrdd i'r dyfodol er mwyn rhoi blaenoriaethau'r Cynllun yn ganolog i waith holl adrannau'r Cyngor fel bod ymateb i newid hinsawdd yn rhan o ddiwylliant yr awdurdod. Mewn ymateb i'r ymholiad ar drafnidiaeth gyhoeddus, adroddodd yr Aelod Cabinet ei fod yn rhan o drafodaethau gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar y materion hyn ond bod heriau sylweddol yn gysylltiedig â'r maes yn sgil diffyg ariannol i gefnogi prosiectau trafnidiaeth gyhoeddus werdd.

Mewn ymateb i ymholiad os oes cynlluniau i ehangu darpariaeth bysiau Fflecsi i ardaloedd eraill o Wynedd, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen eu bod wedi bod yn effeithiol iawn yn y cymunedau hynny sydd wedi elwa ohonynt hyd yma. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod anghenion trigolion pob cymuned yn amrywio a byddai angen ystyriaeth fanwl cyn cyflwyno bysiau fflecsi mewn ardaloedd eraill o Wynedd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael defnydd a bod y buddsoddiad ariannol yn un gost effeithiol.

Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant gwerth £1.7miliwn drwy gynllun grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru ar gyfer uwchraddio cartref preswyl Plas Ogwen, Bethesda i  safon EnerPHit. Holwyd os oes ystyriaeth i uwchraddio cartrefi preswyl eraill er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen bod y prosiect hwn ym Mhlas Ogwen yr un cyntaf o'i fath ym Mhrydain. Ymhelaethwyd y byddai'n galonogol os byddai modd ehangu'r cynllun i leoliadau eraill o fewn y sir gan y disgwylir arbediad o 80% mewn allyriadau carbon o'r prosiect hwn. Sicrhawyd bod swyddogion yn ymgeisio am grantiau perthnasol er mwyn ehangu'r prosiect gan y byddai'n galluogi'r Cyngor i arbed arian ac ynni yn y dyfodol.

Nodwyd bod y posibilrwydd o ddatblygu ffermydd solar wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y gorffennol, a gofynnwyd am ddiweddariad ar y mater. Mewn ymateb,

cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen nad oedd hyn yn opsiwn sydd yn parhau i gael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cyngor. Eglurwyd bod data diweddaraf yn awgrymu na fyddai budd ariannol nac lleihad mewn cyfraddau allyriadau carbon i'r Cyngor oherwydd byddai unrhyw ynni a gynhyrchir drwy'r paneli solar yn cael ei anfon yn ôl i'r grid cenedlaethol. Fodd bynnag, nodwyd nad yw cynlluniau o'r fath wedi cael eu diystyru'n llwyr, gan gadarnhau bydd eu datblygu yn cael eu hail- ystyried os byddai'n effeithiol i'r Cyngor wneud hynny yn y dyfodol.

Ar derfyn y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor ystyried os dylid gwneud argymhelliad penodol i'r Aelod Cabinet o ran ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon net sero erbyn 2030.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Argymell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd bod angen ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a dylid ystyried gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon.**

## 6. TREFNIADAU GRAEANU A BINIAU HALEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ynghyd â Phennaeth yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC a Pheiriannydd Ardal Dwyfor.

Nodwyd bod tair blynedd wedi bod ers i'r trefniadau rheolaeth biniau halen gael ei graffu, fel rhan o'r Gwasanaeth Cynnal Gaeaf. Atgoffwyd bod y cyfnod cynnal y gaeaf yn weithredol o 1af Hydref hyd at 30 Ebrill yn flynyddol gan gadarnhau bod y gwasanaethau yn cynnwys graeanu llwybrau blaenoriaeth gyntaf ac ail-flaenoriaeth yn ogystal â'r ddarpariaeth biniau halen. Amlygwyd bod hyblygrwydd gyda'r amserlen hon gan ei bod yn bosib parhau i raeanu yn hwyrach yn y flwyddyn ac adolygir trefniadau'r gwasanaeth yn dilyn cyfnod y gaeaf er mwyn gweld os oes gwersi i'w dysgu ac ymateb i unrhyw her sydd wedi amlygu ei hun dros y gaeaf.

Diweddarwyd bod y Gwasanaeth wedi mabwysiadu System Monitro Cerbydau Graeanu ers Tachwedd 2024 er mwyn cofnodi'r cylchdeithiau. Eglurwyd bod y dechnoleg hon yn allweddol er mwyn sicrhau bod pob ffordd ar y cylchdeithiau yn cael eu graeanu ynghyd â sicrhau diogelwch gyrwyr y lorïau graeanu gan fod modd eu tracio'n fyw a gellir gweld os oes unrhyw gerbyd wedi mynd i drafferth. Pwysleisiwyd bod y gweithlu yn cael ei ddyblu ar gyfer y cyfnodau hynny ble mae eira ar y rhagolygon oherwydd bod y gwaith yn cael ei gynnal yn y tywyllwch ac mewn amgylchiadau a all fod yn beryglus. Adroddwyd bod adborth cadarnhaol wedi cael ei dderbyn gan y staff am y dechnoleg hon a gobeithir bydd technoleg gyffelyb yn gallu cael ei ddefnyddio i gynorthwyo meysydd gwaith eraill y Cyngor.

Ymhelaethwyd bod y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer llunio cylchdeithiau yn cael ei roi ar gyfer y cylchdeithiau hynny ble mae bysiau ysgol yn defnyddio'r ffyrdd. Ychwanegwyd bod nifer o ffactorau yn cael eu hystyried wrth ddynodi ffyrdd yn rhai blaenoriaeth gyntaf i'w graeanu, megis traffig uchel, darparu o leiaf un mynediad i'r canolfannau sy'n ymateb i argyfwng, derbyniadau argyfwng neu ffordd dosbarth sirol 2 neu 3 gydag oddeutu un mynediad i drefi a phentrefi.

Eglurwyd mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth gaeaf ar yr holl briffyrdd cyhoeddus sydd wedi eu mabwysiadu gan y Sir, fel yr Awdurdod Priffyrdd. Ymhelaethwyd bod y Cyngor hefyd yn trin cefnffyrdd y Sir ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yn ogystal â rhan o'r A55 a reolir gan UK Highways A55 Ltd.

Adroddwyd bod holl finiau halen y sir bellach wedi cael eu rhifo a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod eu lleoliad yn weladwy ar Map Gwynedd ar wefan y Cyngor, er mwyn i drigolion a Chynghorau Cymuned adrodd rhif a lleoliad y bin halen penodol os oes problem yn codi.

Cadarnhawyd bod y Cyngor yn derbyn darpariaeth rhagolygon tywydd y gaeaf a gwasanaethau cynghori gan gwmni MetDesk. Ymhelaethwyd bod hon yn wasanaeth sydd yn cael ei gynnal am 24 awr y dydd o 1 Hydref i 20 Ebrill. Cadarnhawyd bod hyn yn caniatáu i bob swyddfa ardal weithredu ar y wybodaeth ddiweddaraf ac ymateb i'r tywydd gaeafol yn amserol drwy gynllunio gwaith.

Darparwyd data am y niferoedd o dunelli o halen sydd yn cael eu sortio mewn storfeydd yng Nghaernarfon, Chwilog, Dolgellau, Bala, Blaenau Ffestiniog a Llandygai. Nodwyd bod y cyfanswm o dunelli sydd ar gael yn ddibynnol ar y rhagolygon o'r tywydd am y tymor. Adroddwyd bod y gyllideb ar gyfer cynnal y gaeaf oddeutu 17.5% o gyllideb cynnal ffyrdd y Cyngor, gan gadarnhau bod hyn gyfwerth â £1,127,770. Tynnwyd sylw gall y gost o gynnal gaeaf fod yn llawer uwch na'r hyn sydd wedi cael ei ymrwymo yn y gyllideb os yw'r tywydd yn amrywiol i'r hyn a ragdybiwyd dros gyfnod y gaeaf, gan nodi bod swyddogion yn ymateb i hynny yn ôl y galw.

Rhannwyd fideo am waith y gwasanaeth gan nodi y byddai'n cael ei rannu gyda'r cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn fuan iawn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Mewn ymateb i ymholiad os yw'r Adran yn bwriadu caniatáu i amaethwyr raeanu ffyrdd gwledig er mwyn arbed arian i'r Cyngor, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod hon yn derbyn ystyriaeth. Ymhelaethwyd bod trafodaethau wedi bod gyda Chyngor Ceredigion sydd â threfniant tebyg a bod eu system i'w weld yn gweithio. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oes trefniadau o'r fath i'w weld yng Ngwynedd ar hyn o bryd a bod ystyriaethau manwl yn cael ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn drefniant diogel a bod asesiadau risg effeithiol yn cael eu datblygu.

Mewn ymateb i ymholiad am wybodaeth bellach ar gynnwys biniau halen ar Map Gwynedd, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran mai dim ond yn fewnol mae'r wybodaeth hwn ar gael ar hyn o bryd. Eglurwyd bod lleoliad pob bin yn cael ei gofrestru a bod yr Adran yn cydweithio gyda swyddogion Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn i'r wybodaeth ymddangos ar Map Gwynedd ar wefan y Cyngor. Eglurwyd mai'r gobaith yw os nad yw trigolion yn gallu dod o hyd i'w bin halen agosaf, neu yn adrodd problem gydag unrhyw fin, bod modd iddynt nodi'r union leoliad gan ddefnyddio'r map, wrth iddynt adrodd ar y broblem. Cydnabuwyd nad oes amserlen pryd bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ond dymunir iddo fod yn barod mor fuan â phosib.

Llongyfarchwyd yr adran am eu gwaith o sicrhau bod cylchdeithiau blaenoriaeth gyntaf ac ail-flaenoriaeth yn cael eu graeanu yn amserol dros y gaeaf diwethaf, gan nodi nad oedd angen i'r Aelodau gysylltu â'r Adran i ofyn am y gwasanaeth hwn, gan ei bod eisoes wedi cael ei gwblhau. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hyn yn deillio o'r ffaith bod loriau graeanu llai yn cael eu defnyddio ar gyfer cylchdeithiau ail flaenoriaeth pan mae'r tymheredd yn isel am gyfnod o 3 diwrnod, gan sicrhau bod hynny yn cael ei wneud yn ystod y dydd yn hytrach na'r nos. Eglurwyd bod hyn yn caniatáu i'r cylchdeithiau eraill barhau fel ag yr arfer a bod llai o siawns bydd ffyrdd eraill yn cael eu gadael heb eu graeanu.

Mewn ymateb i ymholiad am bwy sydd â'r cyfrifoldeb dros finiau halen, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran mai asedau'r Cyngor ydynt. Nodwyd y golyga hyn mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol am lenwi'r biniau ac am y gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Tynnwyd sylw bod rhai

o'r aelodau wedi nodi bod biniau halen yn eu hardaloedd hwy wedi torri a nododd Pennaeth yr Adran y dylid dod i gyswllt gyda'r Cyngor er mwyn trefnu iddynt gael eu gwaredu a rhoi bin yn eu lle. Amlygwyd bod biniau halen yn cael eu harchwilio fel rhan o'r rhaglen archwiliadau ffyrdd arferol ac yn cael archwiliadau pellach ar ddechrau'r gaeaf er mwyn sicrhau eu bod yn safonol ac yn llawn.

Mewn ymateb i ymholiadau am sut i gael bin halen o'r newydd, eglurodd Pennaeth yr Adran bod modd cytuno ar hyn gyda'r Cyngor Cymuned. Nodwyd bod y gwasanaeth cynnal gaeaf yn edrych ar ail-leoli bin halen presennol yn hytrach na ychwanegu bin newydd. Adroddwyd bod y niferoedd o finiau halen sydd o gwmpas y sir ar ei uchaf a'i fod yn anodd cymeradwyo unrhyw gais am fin newydd neu ychwanegol heb gefnogaeth gan y Cynghorau Cymuned. Soniwyd hefyd gall Cynghorau Cymuned wneud y penderfyniad o brynu bin halen o'r newydd ond eglurwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydi ei ail-lenwi. Pwysleisiwyd bydd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol gan ystyried:

- Ydi'r lleoliad ar lwybr graeanu cyfredol blaenoriaeth gyntaf neu ail-flaenoriaeth
- A fuasai'r cerbyd graeanu yn gallu trin y ffordd os yw'r angen yn codi
- Oes yna fin halen arall cyfagos – os oes, defnyddir y bin hwnnw
- Uchder y lleoliad – tir uchel neu arfordirol
- Yw'r ffordd yn serth neu anwastad
- Oes problemau dwr yn bodoli yno

Nododd yr Aelodau bod aneglurder ymysg cynghorau cymuned am drefniadau biniau halen. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran y byddai'r Peirianwyr Ardal yn llythyru'r holl Gynghorau Cymuned yn egluro'r prosesau cyn cyfnod y gaeaf, gan ddarparu copïau o'r llythyr hwnnw i'r Aelodau Etholedig er gwybodaeth. Ymhelaethwyd bydd y llythyr hwn yn manylu ar y gost o archebu bin halen o'r newydd, sef oddeutu £300-£350.

Mewn ymateb i ymholiad os oedd meysydd parcio a thiroedd ysgolion yn cael eu graeanu er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau ar agor yn ystod tywydd gaeafol, eglurodd Peiriannydd Ardal Dwyfor nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd yn gyffredinol yn y sir. Fodd bynnag, eglurwyd bod modd gwneud hyn ar safle Ysgol Eifionydd. Cyfeiriodd aelodau eraill at esiamplau yn ymwneud ag ysgolion yn eu wardiau. Mewn ymateb, nodwyd bydd y trefniadau hyn yn cael eu hasesu a'u hadolygu er mwyn gweld os oes modd dod i drefniant tebyg. Ymhelaethwyd bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud fel rhan o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod llwybrau troed ysgolion ac ysbytai yn cael eu graeanu'n amserol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC i lythyru Cynghorau Cymuned a Thref i gadarnhau trefniadau biniau halen ac anfon copi i'r Cynghorwyr Sir.**
3. **Argymell i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC bod angen ystyried mynediad diogel i diroedd ysgolion yn ystod tywydd garw fel rhan o'r adolygiad o'r cylchdeithiau graeanu.**

## 7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Atgoffwyd bod holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'r cyhoedd wedi derbyn gwahoddiad i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod y flwyddyn 2025/26.

Diweddarwyd bod yr eitemau posib i'w craffu a ddaeth i law yn dilyn y gwahoddiad hwn wedi cael ei drafod yn ystod cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor hwn ar 10 Gorffennaf 2025. Tynnwyd sylw bod rhai o'r eitemau hyn wedi cael eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol, eitemau a oedd angen dilyniant yn dilyn craffu diweddar yn ogystal â rhai eitemau blynyddol. Nodwyd bod dwy eitem wedi cael eu hawgrymu gan aelodau'r Cyngor.

Eglurwyd bod pob ymdrech wedi cael ei wneud i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem ar gyfer pob cyfarfod wrth lunio'r blaenraglen ddrafft ar gyfer 2025/26, er mwyn sicrhau bod amser digonol i graffu'r holl faterion ac i ychwanegu gwerth. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd modd gwneud hynny ar bob achlysur gan fod pedair eitem wedi cael ei raglennu ar gyfer un cyfarfod. Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau eu hargaeledd i fod yn bresennol ar gyfer yr holl eitemau. Cadarnhawyd bod yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Hoff Strategaeth' wedi cael ei adnabod fel eitem wrth gefn.

Adroddwyd bod gan y Pwyllgor hwn rôl i graffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Nodwyd bod dwy eitem wedi cael eu rhaglennu i'w craffu, sef:

- Adroddiad Blynyddol 2024/25 – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (18 Medi 2025)
- Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (19 Mawrth 2026)

Nodwyd nad oedd modd cyflwyno
Adroddiad Blynyddol 2024/25 i'r cyfarfod yma fel y rhaglenwyd gan nad yw'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd nes Rhagfyr 2025. Eglurwyd os byddai un o'r eitemau sydd wedi cael eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod Ionawr 2026 yn llithro, byddai modd craffu'r Adroddiad Cynnydd bryd hynny yn hytrach na chyfarfod Mawrth 2026 gan ryddhau mwy o amser i graffu'r eitemau eraill yn ystod cyfarfod Mawrth 2026.

Tynnwyd sylw at raglen waith ddrafft y Pwyllgor a oedd wedi ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ar gyfer y cyfarfod. Pwysleisiwyd ei fod yn rhaglen fyw a fyddai'n cael ei adolygu yn gyson er mwyn sicrhau bod y materion cywir yn derbyn sylw.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu rhaglen waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2025/26.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45yb a gorffennodd am 12:40yp

______________________________

**CADEIRYDD**